



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Holiadur Dysgu a Datblygu Niwrowahaniaeth Canfyddiadau a Chamau Nesaf

Crynodeb

Bydd gweithlu cymwys, hyderus sydd ag adnoddau da yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth. Er mwyn llywio'r rhaglen – o safbwynt gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gyfleoedd dysgu a datblygu staff sy'n gweithio ym maes niwrowahaniaeth – mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw a Thîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol Cymru (y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gynt) i ddarparu'r cyfleoedd dysgu a'r newidiadau a nodwyd gan y gweithlu.

Holiadur Dysgu a Datblygu Niwrowahaniaeth

Canfyddiadau a Chamau Nesaf

Cefndir

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae polisi Llywodraeth Cymru wedi ehangu ei ffocws ar awtistiaeth i gynnwys cyflyrau niwrowahanol eraill gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth a sicrhau cydraddoldeb o ran y gwasanaethau a ddarperir. Cynhaliwyd [adolygiad annibynnol](#) o alw, capasiti a dyluniad gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae canlyniadau'r adolygiad hwn yn sail i'r [Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth](#) newydd.

Rydym yn cydnabod mai dim ond os ceir cyfranogiad ar draws y sectorau, gan gynnwys y llywodraeth, gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r gymuned ehangach, y gellir sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau niwrowahaniaeth.

Yr Angen am Raglen Gwella Niwrowahaniaeth

Mae'r [adolygiad o alw a chapasiti](#) a chwmpas ehangach ar gyfer awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD) a syndrom Tourette wedi tynnu sylw at fylchau sylweddol a hirsefydlog yn y ddarpariaeth, a hynny ar draws gwasanaethau asesu a chymorth i blant ac oedolion. Mae yna lawer o gymhlethdodau, megis cyflyrau iechyd meddwl neu niwrowahanol sy'n cydfodoli, ac nid oes unrhyw atebion cyflym i lawer o'r rhwystrau i welliant, gan gynnwys heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu, a fydd yn cyfyngu ar gyflawni unrhyw newid yn gyflym.

Fodd bynnag, gellir sicrhau gwelliannau parhaol drwy raglen ddiwygio uchelgeisiol. Gan ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad o'r galw a chapasiti ac i [adborth rhanddeiliaid o ddigwyddiadau ymgysylltu ar niwrowahaniaeth ym mis Tachwedd 2022](#), roedd gan y Rhaglen Wella dair prif ffrwd waith yn wreiddiol er mwyn cyflawni'r canlyniadau yn unol â'n nodau. Wrth i'r rhaglen aeddfedu trwy sefydlu gweithdai, grwpiau gorchwyl a gorffen, grwpiau cynghori clinigol a grwpiau rhanddeiliaid, mae'r ffrydiau gwaith wedi uno i greu dwy ffrwd. Maent i'w gweld yn Atodiad 1.

Bydd gweithlu cymwys, hyderus sydd ag adnoddau da yn hanfodol i lwyddiant y [Raglen](#) Gwella Niwrowahaniaeth. Er mwyn llywio'r rhaglen - o safbwynt gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gyfleoedd dysgu a datblygu staff sy'n gweithio ym maes niwrowahaniaeth - rydym yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw a Thîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol Cymru (y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gynt) i ddarparu'r cyfleoedd dysgu a'r newidiadau a nodwyd gan y gweithlu.

I'r perwyl hwn, fe wnaethom ddatblygu a dosbarthu holiadur byr. Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio'r canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y camau nesaf a fydd yn llywio gwelliannau i'r hyfforddiant a ddarperir ac yn sicrhau bod staff yn

teimlo bod yr adnoddau priodol ganddynt a'u bod yn cael y cyfleoedd dysgu cywir i gyflawni'r gwaith sy'n ddisgwyliedig.

Rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gwblhau a dychwelyd yr holiadur.

Trosolwg


Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddaeth i law o'r Holiadur Dysgu a Datblygu Niwrowahaniaeth a ddosbarthwyd i'r gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector yng Nghymru dros gyfnod o bum wythnos rhwng 28 Ebrill 2023 a 2 Mehefin 2023.

Nodau'r holiadur oedd:

- deall y cyfleoedd hyfforddi / dysgu a gynigir ar gyflyrau niwrowahanol ar hyn o bryd
- deall y dysgu a'r datblygu pellach sydd ei angen ar staff sy'n gweithio ym maes niwrowahaniaeth
- deall ble, sut a phryd y gellir cyflwyno'r cyfleoedd dysgu hyn orau
- llywio'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth genedlaethol
- rhoi cyfle i unigolion roi adborth ar y cyfleoedd dysgu a datblygu presennol ac i rannu eu profiadau

Derbyniwyd cyfanswm (N=285) o ymatebion wedi'u cwblhau, gyda'r gyfradd ymateb uchaf gan y sector iechyd (n=170), yna gofal cymdeithasol (n=67), addysg (n=45) ac eraill (a oedd yn cynnwys y trydydd sector) (n=3) fel y gwelir yn Ffigur 1.

Wrth reswm, roedd pwysau a blaenoriaethau gwaith wedi cael effaith negyddol ar y gyfradd ymateb. O ganlyniad, bydd cydweithio ag adolygiad diweddar Gweithrediaeth y GIG (Uned Cyflawni GIG Cymru gynt) o wasanaethau niwroddatblygiad ac argymhellion yr Adolygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth yn helpu i sicrhau cydberthynas a dilysu canlyniadau'r holiadur hwn. Hefyd, daeth i'r amlwg ei bod yn anodd dewis mwy nag un ymateb, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi egluro hyn yn y blwch deialog agored.



Ffigur 1. Ymatebion i C1 – Pwy yw eich cyflogwyr presennol?

Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o staff o gefndiroedd a disgyblaethau gwahanol a oedd yn cynnig trosolwg amrywiol o'r dysgu presennol a gyflawnir ledled y gweithlu.

Er hwylustod dadansoddi data, rydym wedi trefnu rhai grwpiau o'r gweithlu gyda'i gilydd. Er enghraifft, roedd clinigwyr yn cynnwys Ymgynghorwyr, Meddygon, a Seicolegwyr; roedd therapyddion yn cynnwys Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Cwnselwyr a Seicotherapyddion; roedd Addysg yn cynnwys Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ac Athrawon.

Roedd Nyrsys, Gweithwyr Cymorth a Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i gael eu hystyried yn grwpiau annibynnol. Roedd y grwpiau eraill yn ymatebwr o sefydliadau addysg uwch gan gynnwys meysydd ymchwil, y trydydd sector, rheolwyr gwasanaethau annibynnol a gweinyddwyr.

Canfyddiadau

1. Pa ddysgu/hyfforddiant ar gyflyrau niwrowahanol ydych chi wedi'i dderbyn ac ar ba lefel?

Pan ofynnwyd am ddysgu/hyfforddiant niwrowahanol blaenorol, roedd (N= 265) wedi ymateb i'r cwestiwn a (n= 20) ddim wedi ymateb. O'r ymatebion, roedd (n=21) wedi nodi nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant, ac roedd (n=9) wedi awgrymu eu bod wedi trefnu eu hyfforddiant ymwybyddiaeth eu hunain er eu bod yn gweithio gyda phobl niwrowahanol, fel y gwelir yn Ffigur 2.

Nododd gweddill yr ymatebwyr a oedd wedi derbyn hyfforddiant (N= 215) fod yr hyfforddiant hwn wedi bod ar lefelau gwahanol.

Roedd y nifer fwyaf wedi derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth gyffredinol (n= 99), er bod rhai wedi awgrymu nad oedd yr hyfforddiant hwn yn ddigon manwl.

- roedd 19 yn gweithio ym maes addysg

- roedd 51 yn gweithio ym maes iechyd
- roedd un yn gweithio yn un o'r sectorau eraill
- roedd 28 yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol

Roedd tua thraean o'r ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â diagnosis yn benodol (n= 85).

- roedd 50 yn gweithio ym maes iechyd; (h.y. 18 clinigydd, 22 nyrs, 9 therapydd ac un gweithiwr cymorth)
- roedd 22 yn weithwyr gofal cymdeithasol, yn weithwyr cymdeithasol ac yn therapyddion
- roedd 12 yn gweithio ym maes addysg, gwasanaethau cynhwysiant addysg, yn bennaethiaid ac yn athrawon
- roedd un yn gweithio yn y trydydd sector


Dim ond nifer fach a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar gyflwyniad clinigol a thriniaeth/cymorth (n= 26).

- roedd 23 yn gweithio ym maes iechyd
- roedd dau yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol
- roedd un yn gweithio ym maes addysg


Roedd dadansoddiad pellach o rôl ymatebwyr yn y sector yn dangos mai'r proffesiynau ôl-gofrestru neu raddedigion a oedd yn fwy tebygol o gael mynediad at hyfforddiant penodol ar ddiagnosis a chyflwyniad clinigol, triniaeth/cymorth.

Roedd llai na chwarter yr ymatebwyr (N=55) yn y sectorau gwasanaethau iechyd (n=35), addysg (n=10) a gofal cymdeithasol (n=10) wedi derbyn hyfforddiant penodol ym meysydd fel ymyrraeth a addaswyd, rheoli ymddygiad cadarnhaol/cymorth ymddygiad cadarnhaol, cymorth gweithredol, cyfathrebu, anhwylder osgoi cymeriant bwyd cyfyngol, offer diagnostig, rheoleiddio, interodderbyniaeth, ymyraethau therapiwtig, cyflwyniad menywod, ac integreiddio echddygol synhwyrdd.

Mae hyn yn golygu bod hyfforddiant ar gael ar draws y sectorau, yn enwedig ar gyfer rolau penodol. Mae'r ymatebwyr a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiagnosis penodol neu gyflwyniad clinigol a hyfforddiant ar driniaeth/ cymorth yn adlewyrchu'r proffesiynau ôl-gofrestru neu raddedigion lle mae diagnosis, ymyraethau therapiwtig neu oruchwylio ymyraethau arbenigol yn rhan annatod o'u rôl. Roedd y niferoedd llai a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer eu rolau penodol yn gweithio ym meysydd iechyd neu addysg, ac mae'r blychau deialog yn awgrymu bod yr hyfforddiant yn ddiagnostig, therapiwtig neu'n ymwneud â diwallu anghenion amgylcheddol.



Ffigur 2. Ymatebion i C2 - Pa ddysgu / hyfforddiant ar gyflyrau niwrowahanol ydych chi wedi ei dderbyn?



Ffigur 3. Ymatebion/sylwadau yn ymwneud â C2 a C3 - Pa ddysgu / hyfforddiant ar gyflyrau niwrowahanol ydych chi wedi ei dderbyn?

Crynodeb

Mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau bod y gweithlu cyfan yn cael hyfforddiant digonol i wneud eu gwaith yn unol â'r disgwyliadau ac i sicrhau bod pobl niwrowahanol yn derbyn gofal a chymorth ymatebol mewn ffordd urddasol sy'n dangos parch atynt.

Er bod rhai pobl mewn swyddi penodol yn derbyn hyfforddiant, mae eraill yn derbyn llai o hyfforddiant, ac o ansawdd gwaeth o bosibl, er eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig at ofal a chymorth unigolyn.

Mae'r sylwadau'n dangos bod y gweithlu'n awyddus i ymgymryd â'r hyfforddiant a bod unigolion yn chwilio amdano er mwyn gwella a deall y bobl niwrowahanol y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cynorthwyo. Er bod hyn i'w ganmol, mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod eu gweithlu cyfan yn wybodus, yn hyderus ac yn gymwys i ymgymryd â'r gwaith y maent yn cael eu cyflogi i'w wneud.

Camau Nesaf

- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol, AaGIC, GCC, Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw ac Addysg er mwyn hyrwyddo datblygiad adnoddau hyfforddi ar gyfer sectorau penodol a'r gweithlu gwahanol yn y sectorau hynny.

2. Pryd y gwnaed yr hyfforddiant hwn?

Mae dadansoddiad o'r adeg pan wnaed yr hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn ymwneud â swyddi penodol ac er bod yr hyfforddiant yn fuddiol, yn enwedig wrth deilwra gofal a chymorth i anghenion unigolion, rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn berthnasol i waith y gweithlu dan sylw, fel y gwelir yn Ffigur 4.

Wrth edrych yn benodol ar y gweithlu sydd â chymhwyster cyn cofrestru (graddedigion), gwelwyd bod bron i draean wedi cael mynediad at hyfforddiant ar niwrowahaniaeth ar ôl cofrestru fel ôl-raddedigion (n= 82).

Ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel rhan o hyfforddiant proffesiynol cyn cofrestru (israddedig).

Nid oedd (n=12) wedi nodi pryd y cwblhawyd yr hyfforddiant. Nododd ymatebwyr o'r meysydd iechyd (n=8), addysg (n=2), gofal cymdeithasol (n=2) ac eraill (n= 30) opsiynau eraill ar gyfer pryd y cwblhawyd eu hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein trwy ESR a dysgu yn y swydd.


Mae'r blychau deialog yn awgrymu bod angen mwy o hyfforddiant yn y cyrsiau israddedig fel bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gwneud y gwaith yn ôl y disgwyl

pan fyddant yn ymuno â'r gweithlu. Hefyd, nodwyd bod angen sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn diwallu anghenion penodol y proffesiwn dan sylw.

Er bod y rhan fwyaf o glinigwyr wedi nodi bod hyfforddiant israddedig ar gael, nid oedd hyn yn nodwedd gyffredinol, ac nid oedd cysylltiad / dysgu drwy brofiad yn gyson drwyddi draw.

Nododd nifer fach (n= 39) fod eu cyflogwyr wedi pennu bod yr hyfforddiant yn orfodol. Roedd hyn o fewn modiwlau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Cyngor Dinas Bryste, Hyfforddiant Cynefino ym maes Addysg ac mewn Awdurdodau Lleol penodol.

Yn y rhan fwyaf o sectorau, mae hyn yn golygu bod lefel yr hyfforddiant a gaiff pobl yn dibynnu ar eu rôl.



Ffigur 4. Ymatebion i C4 - Pryd gawsoch chi'r dysgu / hyfforddiant?

Crynodeb

Er bod rhai aelodau o'r gweithlu yn derbyn rhywfaint o hyfforddiant cyn cofrestru neu hyfforddiant israddedig, mae'r rhan fwyaf yn ceisio cael rhagor o hyfforddiant ar ôl cofrestru fel ôl-raddedigion. Gallai sicrhau opsiynau hyfforddi mewn cyrsiau israddedig fod yn fuddiol. Fodd bynnag, byddai'r hyfforddiant hwn yn fwy addas pe bai'n berthnasol i'r sector a'r proffesiwn penodol, gan ddatblygu unrhyw hyfforddiant ymwybyddiaeth gyffredinol.

Mae uwchsgilio'r gweithlu ehangach trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol yn ymddangos yn opsiwn ymarferol er mwyn sicrhau parhad a blaengynllunio ar gyfer datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Camau Nesaf

- Mae angen adolygu hyfforddiant israddedig presennol ym meysydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg er mwyn cynnwys Niwrowahaniaeth. Dylai'r hyfforddiant

hwn ddiwallu anghenion y proffesiwn ac anghenion hyfforddiant y grŵp dysgu perthnasol

- Mae angen darparu hyfforddiant sy'n addas i'r gweithlu cyfan ac sy'n hwyluso dull gweithredu graddedig, gan roi cyfle i'r holl staff uwchsgilio a gwella eu gwybodaeth am niwrowahaniaeth. Gallai hyn fod ar ffurf adnoddau Hyfforddiant Galwedigaethol Cenedlaethol, City and Guilds

3. Sut cafodd y dysgu / hyfforddiant hwn ei ddarparu, a oedd y fformat hwn yn fuddiol ac a oedd yn eich paratoi i ymgymryd â'r gwaith y disgwylir i chi ei wneud?

Cafwyd ymateb cymysg iawn i'r cwestiwn am sut cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu ac a oedd y fformat yn fuddiol. Roedd y rhan fwyaf (n=98) o'r ymatebwyr (N=267) wedi cael hyfforddiant wyneb yn wyneb neu hyfforddiant ar-lein (n= 81). Dangosodd llawer o'r sylwadau yn y blychau deialog fod yr ymatebwyr wedi cael profiad o fathau gwahanol o hyfforddiant trwy gydol eu dysgu a'u datblygiad. Nododd ychydig dros chwarter (n =78) fod yr hyfforddiant ar ffurf dull cyfunol a oedd yn cynnwys dysgu rhwng cymheiriaid, dysgu drwy brofiad a/neu arsylwi, darlithoedd a gwaith ymchwil ar-lein unigol. Nododd rhai nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant neu eu bod wedi dod o hyd i'w hyfforddiant eu hunain (n= 9). Roedd y rhan fwyaf (n =241) yn credu bod y fformat hyfforddi'n ddefnyddiol, tra bod 26 o'r farn nad oedd yn ddefnyddiol. Yn gyffredinol, roedd yn well gan yr ymatebwyr ddull cyflwyno wyneb yn wyneb.

Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol lle mae effaith profiad byw yn gwella dysgu, gyda sylwadau fel:

“Roedd gen i fyfyrwr ag ADHD a wnaeth fy nghyfeirio at lawer o wybodaeth ddefnyddiol a lleisio ei barn am broblemau a allai wynebu rhai o blant fy llwyth achosion.”

Roedd y cwestiwn a oedd yr hyfforddiant / dysgu yn galluogi'r ymatebwyr i ymgymryd â'r gwaith y disgwylir iddynt ei wneud wedi ennyn ymateb cadarnhaol neu negyddol, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (N= 268) wedi cwblhau'r cwestiwn. Nododd rhai ymatebwyr fod yr hyfforddiant yn eu galluogi i ymgymryd â'r gwaith y disgwylir iddynt ei wneud (n=150), ond roedd nifer sylweddol yn awgrymu nad oeddent yn teimlo'n ddigon galluog i ymgymryd â'r gwaith yn llawn (n= 118).

Mae dadansoddiad pellach o'r blychau deialog testun rhydd yn cynnig dealltwriaeth fanylach o rai o'r materion a oedd yn cyfrannu at farn yr ymatebwyr eu bod heb gael hyfforddiant digonol i ymgymryd â'r gwaith y disgwylir iddynt ei wneud.

Ym maes nyrsio iechyd meddwl cyffredinol, nodwyd bod hyfforddiant ym maes niwrowahaniaeth yn "sylfaenol ac nid yw'n canolbwyntio ar iechyd meddwl gwael neu salwch meddwl sy'n cyd-ddigwydd." Yn ogystal, nododd ymatebwyr mew meysydd fel adsefydlu iechyd meddwl a gofal iechyd meddwl sylfaenol bod "nifer y cleifion niwrowahanol sy'n dod drwy'r wardiau'n cynyddu bob blwyddyn ond nid yw'r hyfforddiant a gawsom yn ddigon i gefnogi unigolion niwrowahanol sydd â salwch meddwl...." ac "rwy'n gweithio ym maes Iechyd Meddwl Sylfaenol a dydw i ddim yn

teimlo'n hyderus wrth addasu ymyrraeth iechyd meddwl ar gyfer plant sydd â phroffiliau ADHD/ASD (anhwylder sbectrwm awtistiaeth)."

Mae hyn yn golygu bod cleifion niwrowahanol sydd â chyflyrau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd yn fwy tebygol o dderbyn gofal gan staff sy'n teimlo nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu cymorth a rhoi ymyraethau therapiwtig ar waith sy'n diwallu anghenion unigol.

Cafwyd sylwadau tebyg gan ymatebwyr ym maes Therapi Galwedigaethol hefyd: "mae angen hyfforddiant penodol ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar yr holl gyflyrau cysylltiedig." Nodwyd meysydd penodol fel "asesiadau synhwyrdd penodol ac amgylchedd y cartref." Gan nad oes llawer o amser ar gael ar gyfer hyfforddiant, roedd rhai ymatebwyr wedi nodi pwysigrwydd sicrhau bod hyfforddiant yn addas ac yn berthnasol i anghenion y maes clinigol penodol: "yn anffodus, roedd y cwrs integreiddio synhwyrdd a fynychais yn fwy perthnasol i therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio gyda phlant ag anabledd corfforol, yn hytrach nag i'r maes iechyd meddwl."

O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd cleifion / defnyddwyr gwasanaethau niwrowahanol sydd angen cymorth gyda bywyd bob dydd a/neu faterion sy'n gysylltiedig â'r synhwyrdd yn derbyn cymorth ac ymyraethau therapiwtig priodol gan staff sy'n teimlo eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gwblhau asesiadau o anghenion unigol.

Yn ôl ymatebwyr ym maes addysg: "mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar niwrowahaniaeth wedi bod yn seiliedig ar ddysgu drwy brofiad er ein bod yn gweithio mewn ysgolion arbenigol", ac "yhydychyd iawn o amser sy'n cael ei neilltuo iddo ymysg holl anghenion hyfforddi eraill athrawon mewn ysgolion uwchradd." Yn ôl ymatebwyr eraill: "wrth i'r angen gynyddu'n aruthrol mewn ysgolion, rydym yn teimlo'n aml ein bod yn boddi ac yn adweithiol" gan awgrymu rheswm posibl am hyn: "ni wnaethom ddysgu llawer yn y brifysgol am Awtistiaeth, ac mae bron popeth yn cael ei ddysgu drwy ymchwilio a dysgu gan eraill". Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod "dysgu hunangyfeiriedig wedi helpu ... ond nid yw'r system addysg wedi'i chynllunio i hwyluso'r addasiadau sydd eu hangen mewn ffyrdd y dylem allu eu cyflwyno."

Mae'n bwysig nodi y cyfeiriwyd at ansawdd hyfforddiant mewn sylwadau fel "Yn aml mae hyfforddiant yn golygu cael unigolyn yn yr ysgol heb unrhyw gymwysterau perthnasolgwirfoddoli i ddarparu hyfforddiant DPP."

Roedd awgrymiadau cadarnhaol yn cynnwys "Byddai hyfforddiant ADOS (Rhaglen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth) yn ddefnyddiol ar gyfer rôl addysg yn ogystal â secondiad gyda NDT."

Mae hyn yn golygu bod angen gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn derbyn hyfforddiant penodol, addasol, o ansawdd i'w helpu i gyflawni eu swyddi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant niwrowahanol yn cael eu deall, yn derbyn cymorth i ddysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd addysgol.

Nododd gwasanaethau cymorth i deuluoedd fod angen "cymorth mwy penodol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc sydd ag iechyd meddwl a

niwrowahaniaethau (a phrosesu synhwyrdd) sy'n gydafiachedd," gan awgrymu bod "yr hyfforddiant ar gyfer ASD ac ADHD yn iawn ond mae gan y plant sy'n dod atom ni lawer o broblemau sy'n gorgyffwrdd. Dydyn ni ddim wedi cael hyfforddiant i gynorthwyo plant a'u teuluoedd sy'n wynebu problemau iechyd meddwl sy'n cydfodoli. Yn gyffredinol, does gennym ddim llawer o wybodaeth am wahaniaethu rhwng anhwylderau ymlyniad a chyflyrau niwrowahanol, ac effeithiau alcohol a chyflyrau niwrowahanol."

O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd unigolion niwrowahanol na'u teuluoedd yn derbyn cymorth unigol priodol gan staff sy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i ymgymryd â'r gwaith.

Roedd sylwadau gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys: "mae hyfforddiant cyffredinol yn ymwneud ag awtistiaeth, er enghraifft, yn gallu bod yn addysgiadol ond nid oes unrhyw hyfforddiant wedi fy mharatoi fel gweithiwr cymdeithasol i weithio gyda llawer o bobl sydd â diagnosis ac sydd ag anghenion cymhleth." Hefyd, nodwyd bod angen "hyfforddi rheolwyr am gymhlethdod niwrowahaniaeth a'r anawsterau yn sgil anghenion unigol." Awgrymwyd y dylid ystyried y cymhlethdodau sy'n deillio o gyflyrau niwrowahanol wrth ddyrannu llwyth achosion – gan roi amser i weithwyr cymdeithasol ymgymryd â'u gwaith.

Mae hyn yn golygu bod angen darparu hyfforddiant ar lefelau gwahanol yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol. Mae angen deall cymhlethdodau unigolion a theuluoedd sydd angen cymorth unigol ochr yn ochr â darparu hyfforddiant hanfodol ar gynnal asesiadau anghenion wedi'u haddasu, a deall yr adnoddau asesu safonedig er mwyn deall beth sydd angen ei gynnwys mewn adroddiadau, lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael asesiad wedi'i addasu gan staff hyderus a chymwys sy'n gallu nodi cymorth unigol i ddiwallu eu hanghenion.

Teimlwyd yn gyffredinol bod "staff clinigol wedi cael cyfleoedd hyfforddi rhagorol yng Nghymru" ond nodwyd hefyd bod angen i'r hyfforddiant fod yn rhan o "raglen dreigl er mwyn rheoli trosiant staff."

Cafwyd cysylltiad â rhai o'r ymatebion i gwestiwn 5, wrth i ymatebwyr awgrymu bod "angen hyfforddiant ôl-raddedig mwy pwrpasol" ond bod angen i'r hyfforddiant hwn "ddeall bod angen thema sy'n uno ar gyfer diagnosis penodol hefyd i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o nodweddion niwrowahaniaeth, gan fod dehongli a llunio'n hanfodol. Mae'n anochel y bydd edrych trwy un lens ddiagnostig yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni gan na fydd yn adlewyrchu senarios bywyd go iawn."

Crynodeb

Mae'n amlwg bod yna sawl fformat gwahanol ar gyfer cyflwyno hyfforddiant/dysgu niwrowahaniaeth a bod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi cael profiad o bob math ar ryw adeg yn eu dysgu.

Mae angen dull gweithredu cyfunol wrth ddarparu hyfforddiant. Er bod hyfforddiant ar-lein yn fwy hygyrch ac yn cyrraedd poblogaeth ehangach, mae elfen o

hyfforddiant wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl yn fanteisiol. Mae'n hanfodol cynnwys profiadau byw wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni hyfforddiant.

Fodd bynnag, mae sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn briodol a'i fod yn paratoi'r gweithlu i wneud y gwaith disgwylidig yn parhau i fod yn faes sydd angen mynd i'r afael ag ef. Mae cleifion niwrowahanol sydd â chyflyrau iechyd meddwl sy'n cyddigwydd neu sydd angen gwasanaeth therapyddion perthynol fel Therapydd Galwedigaethol neu Therapydd Lleferydd ac laith yn fwy tebygol o dderbyn gofal gan staff sy'n teimlo nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu cymorth a rhoi ymyraethau therapiwtig ar waith sy'n diwallu anghenion unigol.

Hefyd, mae angen gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn derbyn cymorth i allu addasu amgylcheddau a chyfleoedd dysgu yn hyderus ac yn fedrus er mwyn sicrhau bod plant niwrowahanol yn cael eu deall, eu bod yn cael cymorth i ddysgu, a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd addysgol.

Wrth asesu angen neu ddarparu cymorth yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol, mae angen i staff ddeall y cymhlethdodau a'r gwahaniaethau unigol a theimlo'n hyderus ac yn fedrus i addasu eu prosesau ymgysylltu a'u hymyraethau cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion y cymunedau niwrowahanol lle maent yn gweithio.


Camau Nesaf

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, AaGIC, GCC, Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw ac Addysg er mwyn datblygu adnoddau sy'n bodloni gofynion y dysgwyr. Mae angen i'r hyfforddiant hwn;
 - ddiwallu anghenion gwasanaethau penodol
 - defnyddio dull cyfunol o ddysgu sy'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar y cyd â phobl niwrowahanol
- Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael yn eang ac yn hwylus i'r gweithlu cyfan
- Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, AaGIC, GCC ac Addysg i hyrwyddo a darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr y gweithlu yn ymwneud â Phecyn Cymorth Hyfforddi'r Gweithlu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â Phrifysgolion addysgu a Chyrff Cofrestru er mwyn mynd i'r afael â'r angen am niwrowahaniaeth yn y cwricwlwm israddedig.

4. Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant arbenigol yn ymwneud ag adnoddau diagnostig? Ydych chi'n defnyddio adnoddau diagnostig yn rheolaidd yn eich gwaith ac a oes unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r adnoddau hyn?

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y niferoedd a ymatebodd i'r cwestiwn am offer diagnostig (N=99) o gymharu a'r nifer na ymatebodd (N=186).

Roedd hyn yn adlewyrchu'r rhai a oedd wedi derbyn hyfforddiant yn yr offer diagnostig ond roedd mwy o wybodaeth ar gael yn y blychau testun deialog.



Ffigur 5. Ymatebion i C8 Ydych chi wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn unrhyw un o'r offer diagnostig canlynol (neu eraill)?

Mae hyn yn golygu mai dim ond nifer fach o ymatebwyr sydd wedi cael hyfforddiant ac yn gallu cwblhau asesiadau / diagnosis trwy ddefnyddio adnoddau priodol.

ADOS oedd yr adnodd asesu mwyaf poblogaidd (n=42), ac yna'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (n=15). Roedd 7 wedi defnyddio ADI-R, a 3 wedi defnyddio DISCO a Conners. Roedd 2 wedi defnyddio 3Di a DIVA.

Cofnodwyd bod dros 18 o adnoddau asesu/diagnostig eraill wedi cael eu defnyddio.

Mae hyn yn golygu bod 25 o adnoddau gwahanol yn cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd i wneud diagnosis o gyflyrau niwrowahanol.

Pan ofynnwyd i'r holl ymatebwyr (N=242) a oedd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn eu gwaith, nododd mwy na hanner nad oeddent yn defnyddio'r adnoddau yn rheolaidd (n=163) a nododd llai na chwarter eu bod yn eu defnyddio'n rheolaidd (n= 60). Mae hyn yn cyd-fynd â'r nifer fach sydd wedi derbyn yr hyfforddiant (n= 99).

Roedd amlder y defnydd yn amrywio'n eang, a nododd rhai ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r adnoddau bob dydd, roedd eraill yn eu defnyddio bob mis, ac eraill at ddibenion ymchwil yn unig.

Roedd rhai ymatebwyr wedi derbyn yr hyfforddiant ond nid oeddent yn defnyddio'r adnoddau bellach am y rhesymau canlynol: roedd eu rôl wedi newid, diffyg amser, roeddent ond wedi eu defnyddio oherwydd eu bod yn adnoddau di-dâl gan Awstiaeth Cymru, ac nid oedd y bwrdd iechyd yn eu derbyn bellach gan y sector Gofal Sylfaenol oni bai eu bod wedi'u gwblhau gan feddyg teulu.

Wrth archwilio'r rhwystrau i ddefnyddio'r adnoddau, nododd (n=31) mai'r amser sydd ei angen i gwblhau'r adnodd oedd y rhwystr, dywedodd (n=19) nad oedd ganddynt

ddigon o hyder, dywedodd (n=14) nad oedd ganddynt ofod addas, ac roedd (n= 13) o'r farn nad oes digon o ddeunydd wedi'i addasu ar gael. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth bellach yn y blychau deialog wedi cyfeirio at ddiffyg capasiti mewn timau, y ffaith fod yr adnoddau'n faith ac, mewn rhai achosion, y ffaith fod adnoddau wedi'u haddasu a'u cwtogi er mwyn eu defnyddio.

Cafwyd y sylw canlynol hefyd: "erbyn hyn, o safbwynt therapiwtig mae'r pwyslais ar swyddogaeth ac ymyrraeth yn hytrach na diagnosis, ond weithiau mae'r diagnosis yn ddefnyddiol mewn teuluoedd er mwyn prosesu a deall anghenion ac ymgysylltu'n llawnach ag ymyraethau."

Roedd rhai ymatebwyr o'r maes addysg wedi nodi bod asesiadau sy'n cael eu cwblhau gan y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn 'sylfaenol ac nid ydynt yn cefnogi llawer o'r dysgwyr niwrowahanol gan nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer cymorth' er bod ganddynt anghenion dysgu gwahanol. Yn ogystal, roedd sawl CADY yn awyddus i wella eu dealltwriaeth o'r adnoddau hyn "er mwyn helpu i gefnogi ysgolion i gynnal ymgynghoriad niwrowahaniaeth a gwella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a phrosesau atgyfeirio."

Mae hyn yn golygu bod datblygiadau wedi bod mewn dulliau o ymdrin â niwrowahaniaeth, a bod y gweithlu addysg yn awyddus i ddeall a chynorthwyo dysgwyr.

Crynodeb

Dim ond nifer fach o ymatebwyr sydd wedi cael hyfforddiant ac yn gallu cwblhau asesiadau/diagnosis trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau priodol. Mae problemau yn ymwneud â'r gweithlu a'r amgylchedd yn cyfrannu at brinder pobl sy'n gallu defnyddio'r adnoddau. Fodd bynnag, mae newidiadau cadarnhaol ar waith mewn dulliau o ymdrin â niwrowahaniaeth, yn enwedig, yn y gweithlu addysg.

Camau Nesaf

- Mae angen i wasanaethau archwilio'r rhesymau am y rhwystrau amgylcheddol sy'n atal asesiadau a phrosesau diagnostig rhag cael eu cwblhau yn amserol, a mynd ati i'w diwygio
- Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r Colegau Brenhinol, AaGIC, GCC, Addysg a darparwyr gwasanaethau er mwyn datblygu dulliau arloesol o ehangu gallu'r gweithlu fel bod modd cwblhau mwy o asesiadau a phrosesau diagnostig amserol
- Mae angen gwella prosesau cydweithio rhwng gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau addysg, yn y broses asesu a diagnostig ar gyfer plant ac oedolion ifanc. Gall hyn gynnwys dealltwriaeth gydweithredol o rolau a disgwyliadau.


5. Yn eich barn chi, pa hyfforddiant/dysgu a datblygu pellach fyddai fwyaf buddiol i chi o ran gwella eich ymarfer?

Roedd ymatebion i'r cwestiwn am yr hyfforddiant mwyaf buddiol wedi arwain at lawer o destun ysgrifenedig yn y blychau deialog, a oedd yn egluro'r ymatebion ac yn

manylu arnynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn (N=264) ond nid oedd (n= 21) wedi ymateb, fel y gwelir yn Ffigur 5.

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr (n=113) yn teimlo y byddai ymyraethau wedi'u teilwra a sut i addasu ymarfer yn fwyaf buddiol, wrth groesgyfeirio'r ymatebion ag ymatebion i gwestiwn dau, gellir dod i'r casgliad bod y gweithlu'n gofyn am hyfforddiant yn ymwneud ag ymyraethau a sut i addasu ymarfer sydd wedi'i deilwra i wasanaethau penodol.

Mae hyn yn golygu bod y gweithlu'n teimlo y byddai rhai meysydd dysgu'n gwella eu dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a'u hymarfer.



Ffigur 6. Ymatebion i C11 - Yn eich barn chi, pa hyfforddiant / dysgu a datblygu pellach fyddai fwyaf buddiol i chi o ran gwella eich arferion?

Un maes dysgu pwysig oedd deall sut i nodi achosion ac atgyfeirio at lwybrau perthnasol, ac awgrymodd (n= 28) y byddai hyfforddiant diagnostig yn fuddiol. Er mai dim ond (n=17) a nododd y byddai addasiadau rhesymol yn fwyaf buddiol, roedd y sylwadau yn y blychau deialog wedi cynyddu'r cyfanswm hwn, gan fod llawer yn nodi y byddai deall yr addasiadau'n gwella eu hymarfer yn ogystal â'r profiad i'r unigolyn.

Roedd nifer sylweddol o sylwadau (n= 51) yn y blychau deialog wedi nodi y byddai'r holl feysydd a awgrymir, wedi'u cyflwyno mewn modiwlau i'w dewis gan unigolion, yn fuddiol (Hanes ac Egwyddorion Cyflyrau Niwrowahanol, Asesiadau Diagnostig, Nodi Cyflyrau / Atgyfeirio / Llwybrau, Addasiadau Rhesymol, Ymyriadau wedi'u teilwra a sut i addasu eich ymarfer).

Cafwyd llawer o sgysiau yn y blychau deialog ynglŷn â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, yn enwedig rhwng iechyd meddwl a niwrowahaniaeth, a sut y byddai hyfforddiant ar

gyfer y gweithlu iechyd meddwl yn ymwneud ag addasiadau rhesymol, deall cyfathrebu a materion synhwyraidd yn gwella ymarfer a chanlyniadau i unigolion.

Cafwyd deialog yn ymwneud â nodi/atgyfeirio a llwybrau (n= 45) i ddeall y prosesau perthnasol a allai gynnwys trosolwg o adnoddau diagnostig a gwybodaeth am y rhwystrau sy'n codi yn ystod y broses asesu. Teimlwyd y byddai deall y prosesau'n helpu i wella gwybodaeth ac ymarfer atgyfeirio. "Fel gweithiwr cymdeithasol dwi ddim yn defnyddio'r adnoddau hyn at ddibenion diagnostig ond dwi'n eu deall nhw ac maen nhw'n fy helpu i ddeall pethau, yn enwedig [wrth esbonio] i'r rhai fydd yn cael yr asesiad". Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymatebion yng nghwestiwn 4 lle mae athrawon yn awgrymu y byddai deall yr adnoddau diagnostig yn helpu gydag atgyfeiriadau, ysgrifennu adroddiadau ac ymgymryd ag arsylwadau.

Fodd bynnag, cafwyd awgrymiadau eraill yr un mor bwysig ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd fel niwrowahaniaeth a phobl hŷn, cefnogi teuluoedd niwrowahanol, mynediad at fforwm diweddarau ar arferion newydd ac arloesol, a hyfforddiant trosolwg wedi'i ddiweddarau.

Crynodeb

Mae'r ymatebion a'r sylwadau yn y blychau deialog yn dangos bod rhai aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant, ond bod unigolion yn teimlo y byddai modd gwella eu dealltwriaeth a'u hymarfer trwy gael hyfforddiant ar rai meysydd. Heb os, byddai hyn yn darparu profiad gwell i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau.

Nodwyd enghreifftiau cadarnhaol o sut y gellid darparu hyfforddiant, er enghraifft, mewn modiwlau lle mae unigolion yn gallu cael mynediad at y meysydd sy'n berthnasol i'w dysgu eu hunain. Fodd bynnag, unwaith eto, nodwyd bod angen i hyfforddiant fod yn berthnasol i wasanaethau, ac roedd ymatebwyr mewn meysydd fel gofal cymdeithasol ac iechyd yn mynegi'r angen am hyfforddiant penodol.

Camau Nesaf

- Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, AaGIC, GCC Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw ac Addysg er mwyn datblygu adnoddau a fydd yn diwallu anghenion y gweithlu mewn meysydd penodol ac yn cynnwys diweddariadau yn y rhaglen adnoddau

6. Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu sy'n gallu diwallu anghenion iechyd, gofal ac addysgol pobl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd modd cyflawni hyn heb ymgysylltu a chreu partneriaeth â'r gweithlu, trwy wrando, a deall beth sy'n bwysig wrth ddarparu gwasanaethau.

I lawer o deuluoedd, mae'r gallu i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig oherwydd eu bod yn teimlo ei bod yn ganolog i gael eu trin â pharch ac urddas, ac i rai pobl mae'n fater o angen clinigol a datblygiadol hefyd, gan y gall effeithio ar eu hasesiad, eu triniaeth, eu diogelwch a'r canlyniad.


Nid oedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr i'r holiadur (n=203) yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y chwarter arall yn cynnwys siaradwyr Cymraeg (n= 40) a dysgwyr (n=41). Ni wnaeth un ymateb o gwbl. Mae dadansoddiad pellach o'r ymatebion yn dangos mai dim ond (n=28) o'r siaradwyr/dysgwyr Cymraeg (N=81) a oedd yn teimlo'n ddigon hyderus a chymwys i wneud eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, er bod rhai agweddau negyddol wedi'u mynegi ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg (n=2), nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (n=282) y byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu Cymraeg, mynd ar gyrsiau gloywi i godi eu hyder neu dderbyn hyfforddiant penodol ar eirfa berthnasol i ategu'r Saesneg yn ystod ymyraethau. Nododd rhai ymatebwyr y manteision i'w hymarfer wrth ymdrin ag unigolion a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf (n=78). Nodwyd bod y rhwystrau i gael mynediad at hyfforddiant yn cynnwys diffyg amser, cyllid ac ymrwymiad gan gyflogwyr.

Er mai dim ond nifer fach o'r gweithlu sy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i siarad Cymraeg yn y gweithle, mae sylwadau'r ymatebwyr yn dangos bod yna awydd i ddysgu.

Mae Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adeiladu ar sylfeini Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, i greu gweithlu sy'n ymgysylltu, yn iach, yn hyblyg, yn ymatebol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol Cymru, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r fframwaith deddfwriaethol (a grybwyllir uchod) sy'n ymwneud â defnyddio a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir i'r boblogaeth niwrowahanol yng Nghymru, a dylent sbarduno'r broses o ymwreiddio'r Gymraeg yn y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu.

Cafwyd rhai sylwadau diddorol a gwerthfawr iawn am ddulliau newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau ar y cyd, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i unigolion a theuluoedd.



Ffigur 7. Ymatebion i C14 - Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus / yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich gwaith, beth fyddai angen bod yn ei le er mwyn i chi deimlo'n fwy hyderus?

Crynodeb

Er mai dim ond nifer fach o'r gweithlu sy'n teimlo'n hyderus ac yn gymwys i siarad Cymraeg yn y gweithle, mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o fanteision defnyddio'r iaith ar gyfer eu hymarfer eu hunain ac wrth ymdrin ag unigolion niwrowahanol, yn enwedig y rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae yna awydd i ddysgu'r iaith, gyda chymorth gan gyflogwyr drwy neilltuo amser gwarantedig yn benodol.

Hefyd, cafwyd awgrymiadau arloesol a chadarnhaol ar gyfer cefnogi defnyddio'r iaith yn y gweithlu.

Camau Nesaf

- Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag AaGIC ar y gwaith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo gweithlu sy'n siarad Cymraeg, a bydd yn hwyluso gwersi traws-sector sy'n cael eu dysgu ar gyfer GCC ac Addysg
- Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag asiantaethau allanol i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddatblygu adnoddau
- Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â chyfnod darganfod i ddeall yr angen am ddatblygu a defnyddio adnoddau diagnostig cyfrwng Cymraeg yn unol â darpariaeth gofal darbodus.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer pobl niwrowahanol yng Nghymru. Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector ar hyn o bryd, mae angen datblygu dull gweithredu integredig. Bydd hyn yn dod â gweithluoedd medrus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth darbodus, cynaliadwy sy'n diwallu anghenion y boblogaeth niwrowahanol.

Mae gweithlu cymwys, hyderus gydag adnoddau da yn rhan annatod o lwyddiant hyn ac rydym yn bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i wneud y canlynol

- Creu cyfres helaeth o adnoddau dysgu sy'n addas i anghenion gweithlu sy'n datblygu
- Hwyluso gweithlu niwroddatblygiadol a fydd yn croesawu newid ac sy'n gallu diwallu anghenion tirwedd niwroddatblygiadol sy'n gweddnawid
- Symud yr agenda ymlaen a datblygu gweithlu niwroddatblygiadol amrywiol gyda rhwydwaith cryf o weithwyr proffesiynol perthynol.

Mae canlyniadau'r holiadur hwn wedi helpu i lywio'r camau nesaf yn y gwaith o ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer gweithlu integredig a gwydn. Rydym ni'n gwybod nawr bod angen gwneud y canlynol:

- Cyd-gynhyrchu rhaglenni hyfforddi a fydd yn diwallu anghenion y gweithlu newydd a'r gweithlu presennol
- Cyd-gynhyrchu rhaglenni hyfforddi sy'n hygyrch, yn ymatebol ac yn benodol i wasanaethau
- Cyd-gynhyrchu rhaglenni hyfforddi i ddiwallu anghenion y gweithlu mewn byd sy'n newid
- Edrych ar dulliau amgen o hyfforddi'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd ac arloesol
- Cynnwys profiad byw wrth ddarparu rhaglenni hyfforddi
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau
- Rhannu arferion da a hyrwyddo cydweithio integredig

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud llawer iawn o waith, ond mae gweithluoedd wedi ymrwymo i groesawu dulliau gweithio newydd, ac yn barod i'w defnyddio. Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau gydnabod eu cyfrifoldeb i sicrhau bod eu gweithlu cyfan yn wybodus, yn hyderus, yn gymwys ac yn cael cefnogaeth i ymgymryd â'r gwaith y maent yn cael eu cyflogi i'w wneud. Bydd uwchsgilio'r gweithlu ehangach trwy ddarparu hyfforddiant penodol yn sicrhau parhad a datblygiad gofal darbodus wrth symud ymlaen.

Mae modd darparu hyfforddiant a datblygu gwasanaethau yn y meysydd sydd â'r angen mwyaf trwy sicrhau cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, y Colegau Brenhinol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg, Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg, gwasanaethau'r trydydd sector a phobl â phrofiad byw. Y gweithlu gwybodus hwn

fydd y sylfaen ar gyfer herio darpariaeth gwasanaethau ar hyn o bryd, croesawu newid, darparu gofal arloesol a datblygu gwasanaethau integredig cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Crynodeb o'r Camau Nesaf

Camau nesaf	Partneriaid	Llinell amser
<u>Dysgu / hyfforddiant ar gyflyrau Niwrowahanol</u>		
Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol, AaGIC, GCC, Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw ac Addysg er mwyn hyrwyddo datblygiad adnoddau hyfforddi ar gyfer sectorau penodol a'r gweithlu gwahanol yn y sectorau hynny.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Addysg Pobl â phrofiad byw	Rhagfyr 2024
<u>Adeg ymgymryd â hyfforddiant</u>		
Mae angen adolygu hyfforddiant israddedig presennol ym meysydd lechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg er mwyn cynnwys Niwrowahaniaeth. Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei deilwra i ddiwallu anghenion y proffesiwn ac anghenion hyfforddi'r grŵp dysgu perthnasol.	AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Addysg	Mawrth 2025
Mae angen darparu hyfforddiant sy'n addas ar gyfer y gweithlu cyfan ac sy'n hwyluso dull gweithredu graddedig, gan roi cyfle i'r holl staff uwchsgilio a gwella eu gwybodaeth am niwrowahaniaeth. Gallai hyn fod ar ffurf adnoddau Hyfforddiant Galwedigaethol Cenedlaethol, City and Guilds.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol lechyd Gofal Cymdeithasol Addysg Trydydd Sector	Rhagfyr 2024
<u>Dull darparu hyfforddiant/dysgu</u>		
Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, AaGIC, GCC Colegau Brenhinol, Pobl â phrofiad byw ac Addysg er mwyn datblygu adnoddau sy'n bodloni gofynion y dysgwyr.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Pobl â phrofiad byw Addysg	Rhagfyr 2024
Mae angen datblygu hyfforddiant sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion gwasanaethau penodol.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Addysg Pobl â phrofiad byw	Rhagfyr 2024
Mae angen dull cyfunol o ddysgu sy'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar y cyd â phobl niwrowahanol.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Colegau Brenhinol Cymru Addysg Pobl â phrofiad byw	Rhagfyr 2024

Camau nesaf	Partneriaid	Llinell amser
<u>Dull darparu hyfforddiant/dysgu yn Parhau.</u>		
Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael yn eang ac yn hwylus i'r gweithlu cyfan.	Llywodraeth Cymru	Mawrth 2025
Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol, AaGIC, GCC ac Addysg i hyrwyddo a darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr y gweithlu ar Becyn Cymorth Hyfforddi'r Gweithlu.	Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Addysg	Medi 2025
Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â Phrifysgolion addysgu a Chyrff Cofrestru er mwyn mynd i'r afael â'r angen am niwrowahaniaeth yn y cwricwlwm israddedig.	Llywodraeth Cymru	Mawrth 2025
<u>Hyfforddiant arbenigol ar adnoddau diagnostig</u>		
Mae angen i wasanaethau archwilio'r rhesymau am y rhwystrau amgylcheddol sy'n atal asesiadau a phrosesau diagnostig rhag cael eu cwblhau yn amserol, a mynd ati i'w diwygio.	Iechyd Gofal Cymdeithasol Addysg	Medi 2024
Mae angen i Lywodraeth Cymru gydweithio ag AaGIC, GCC, Addysg a darparwyr gwasanaethau er mwyn datblygu dulliau arloesol o ehangu gallu'r gweithlu fel bod modd cwblhau mwy o asesiadau a phrosesau diagnostig amserol.	Llywodraeth Cymru Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Addysg	Mawrth 2025 ac ymlaen
Mae angen gwella prosesau cydweithio rhwng gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau addysg, yn y broses asesu a diagnostig ar gyfer plant ac oedolion ifanc. Gall hyn gynnwys dealltwriaeth gydweithredol o rolau a disgwyliadau.	Addysg Iechyd Gofal Cymdeithasol	Medi 2024
<u>Hyfforddiant / dysgu a datblygu pellach i wella ymarfer</u>		
Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, AaGIC, GCC Colegau Brenhinol, Addysg a phobl â phrofiad byw er mwyn datblygu adnoddau a fydd yn diwallu anghenion y gweithlu mewn meysydd penodol ac yn cynnwys diweddariadau yn y rhaglen adnoddau.	Llywodraeth Cymru Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol AaGIC Gofal Cymdeithasol Cymru Colegau Brenhinol Addysg Pobl â phrofiad byw	Rhagfyr 2024

Camau nesaf	Partneriaid	Llinell amser
<u>Y Gymraeg</u>		
Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag AaGIC ar y gwaith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo gweithlu sy'n siarad Cymraeg, a bydd yn hwyluso gwersi traws-sector sy'n cael eu dysgu ar gyfer GCC ac Addysg.	Llywodraeth Cymru AaGIC GCC Addysg	Mawrth 2025 ac ymlaen
Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag asiantaethau allanol i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddatblygu adnoddau.	Llywodraeth Cymru	Mawrth 2025 ac ymlaen
Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â chyfnod darganfod i ddeall yr angen am ddatblygu a defnyddio adnoddau diagnostig cyfrwng Cymraeg yn unol â darparu gofal darbodus.	Llywodraeth Cymru	Medi 2024

Atodiad 1

Rheoli Prosiect a Datblygu Polisi Llywodraeth Cymru	
Cynnwys Rhanddeiliaid, Cyd-gynhyrchu a Chyfathrebu	
Integreiddio a dull system gyfan – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Cymru Iachach	
Cysondeb â fframwaith cynllunio NEST/NYTH	
Adolygu a Gwerthuso diwygiadau newydd / Ymgynghoriad ar Ddatblygu Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth	
Cyflwyno a chyfleu mandad ar gyfer newid. Model bio-seicogymdeithasol	
Ffrwd waith 1 Adeiladu Gwasanaethau Cynaliadwy	Ffrwd waith 2 - Seilwaith a gweithlu Niwrowahaniaeth
<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a threialu gwasanaethau help a chymorth cynnar ar gyfer niwrowahaniaeth i blant a phobl ifanc gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a hirhoedledd • Datblygu manylebau a threialu dull cenedlaethol o ddiwygio'r gwasanaeth niwrowahaniaeth ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys pontio. Os ydynt yn llwyddiannus, cyflwyno'r newidiadau ar draws y rhanbarthau • Cwmpasu ar gyfer gwasanaethau cymorth ADHD a syndrom Tourette (pob oedran) • Cymorth ar gyfer y rhai nad ydynt yn bodloni trothwyon asesu – y canol coll • Gwellu cymorth ar gyfer cyflyrau sy'n cydfodoli gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant • Cymorth parhaus ar gyfer teuluoedd a gofalwyr • Cymorth ym meysydd addysg a chyflogaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r Gweithlu • Gwellu Data • Galluogwyr Digidol • Galluogi Ymarfer Arloesol

Atodiad 2 – Rhestr o hyfforddiant arbenigol a dulliau diagnostig a dderbyniwyd gan y gwithlu

- ADHD rating scales
- AQ test (The Autism-Spectrum Quotient Test)
- BBAT (The Brief Behavioural Assessment Tool)
- CARD
- CARS (Childhood Autism Rating Scale) observation checklist and questionnaire
- Complex developmental trauma DASH
- Functional impairment rating scale
- KBIT (Kaufman Brief Intelligence Test)
- Local Questionnaires
- MABC-2 (Movement assessment battery for children)
- Neurodevelopmental forms to support a referral for ASD assessment.
- PBM (Positive behaviour management)
- PBS (Positive behaviour support)
- QB Test
- SCQ (Social Communication Questionnaire)
- Sensory Integration Approach
- SNAP (The Special Needs Assessment Profile)
- WEISs symptom record